| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Therapydd Galwedigaethol |
| Cyfarwyddiaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Yn atebol i'r | Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Ardal |
| Lleoliad | Lleoliad: Tŷ Dewi Sant, a gweithio ar draws y sir |

**Pwrpas y Swydd**

Darparu asesiadau Therapi Galwedigaethol i unigolion a'u gofalwyr er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau galwedigaethol yn eu cartref i'r rhai sydd â rhwystrau hir dymor sy'n cael eu hachosi gan eu hiechyd. Gweithio gyda nhw i lunio cynllun gweithredu i gael gwared ar y rhwystrau, adeiladu ar gryfderau'r unigolyn, eu cefnogi nhw i wella gweithrediad. Pan fo angen, argymell technegau, cyfarpar a/neu addasiadau i alluogi iddynt barhau i fyw gartref/yn y gymuned gyda chymaint o annibyniaeth ag sy'n bosibl. Adolygu ymyraethau ac adeiladu gwytnwch parhaus cyn eu cau.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Cwblhau'r broses Therapi Galwedigaethol mewn lleoliadau amrywiol o fewn y gymuned, er enghraifft yng nghartrefi pobl, cartrefi lloches a phreswyl neu ysgolion, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes tai, iechyd, gwasanaethau gofal a'r trydydd sector yn rheoli llwyth o achosion cymhleth.
2. Cynnal asesiadau therapi galwedigaethol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac asesiadau arbenigol o ran codi a symud yn gorfforol, cymryd risgiau'n gadarnhaol, asesiadau eistedd a'r amgylchedd i gefnogi cynllunio argymhellion ac ymyraethau manwl.
3. Meddu ar wybodaeth a rhannu technegau fel y bo'n briodol i gefnogi pobl i allu symud a gweithredu gymaint â phosib' a chefnogi eu gofalwyr lle bo modd.
4. Asesu a darparu cyfarpar anabledd lle bo angen, a defnyddio neu ddiystyru stoc graidd a/neu ymchwilio i archebion arbenigol ar wahân i stoc a fydd yn cynorthwyo cleientiaid a/neu ofalwyr i allu gwneud tasgau bywyd bob dydd mor ddiogel ac annibynnol â phosib'.
5. Asesu a gwneud argymhellion lle bo angen i gefnogi darparu addasiadau, sy'n cynnwys addasiadau bach a mawr i gartrefi pobl, ar y cyd â chydweithwyr tai a phartneriaid i gynorthwyo cleientiaid a/neu ofalwyr i fod mor annibynnol â phosib' wrth gyflawni eu canlyniadau galwedigaethol. Lle nad yw addasiadau'n briodol, bydd y Therapydd Galwedigaethol yn helpu gyda dechrau a chwblhau asesiadau ailgartrefu.
6. Parhau i ddatblygu'n broffesiynol, gan gynnwys derbyn yr hyfforddiant priodol, derbyn goruchwyliaeth glinigol yn rheolaidd, myfyrio ar waith, cynnal portffolio proffesiynol, cymryd rhan weithredol yn addysg gwaith maes myfyrwyr, cadw at y cod ymddygiad proffesiynol a'r cod moeseg, sicrhau aelodaeth â chyrff proffesiynol angenrheidiol (HCPC/RCOT) a cheisio aelodaeth o grwpiau diddordeb arbenigol lle bo hynny'n briodol ar gyfer y maes ymarfer.

7. Arddangos sgiliau cyfathrebu rhagorol gan weithio gyda phobl a'u teuluoedd yn ogystal ag asiantaethau amrywiol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus

i gasglu gwybodaeth ychwanegol ar ddefnyddwyr gwasanaeth neu eu cynlluniau, rhannu gwybodaeth fel sy'n briodol, achosion gwaith ar y cyd, cyfeirio pobl at gymorth a darparu safbwynt proffesiynol mewn lleoliadau meddygol / cyfreithiol yn ôl yr angen.

8. Cadw cofnodion papur ac electronig prydlon yn ôl yr angen i safon uchel yn unol â chanllawiau diogelu data proffesiynol a llywodraethu lleol.

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
| --- |
| Dim |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
| --- | --- | --- |
| Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'i defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol. | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Gradd mewn Therapi Galwedigaethol | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Cofrestriad HCPC | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r cyfrifoldebau sy'n deillio o weithredu deddfwriaeth berthnasol fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o ddarparu gwasanaethau i unigolion a gofalwyr yn eu cartrefi eu hunain | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio yn y gymuned gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n galluogi ac yn canolbwyntio ar unigolion | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Gallu cael sgyrsiau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar sail cryfderau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu asesu gallu gweithredu unigolion a'u gofalwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu ardderchog, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda staff o fewn sefydliad, asiantaethau partner a'r cyhoedd. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu cyflwyno adroddiadau a syniadau yn gryno, gwneud cyflwyniadau i wahanol gynulleidfaoedd ar ystod o bynciau i amrywiaeth o fudd-ddeiliaid fel awdurdodau lleol, iechyd, sector gwirfoddol | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu blaenoriaethu llwyth gwaith eich hun i gwrdd â dyddiadau cau adrannol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu trafod a delio gydag unrhyw wrthdaro | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dangos dull hyblyg o weithio gyda'r gallu i gymryd rhan mewn amrywiaeth o dasgau. Bod â dull dadansoddol o ddatrys problemau, gan wneud gwelliannau ac argymhellion fel bo'n briodol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu arwain, annog, a chymryd rhan mewn amrywiaeth o grwpiau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau TG cryf gan gynnwys rhaglenni Office | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymrwymiad i weithio ar y cyd ag Iechyd ac asiantaethau partner /cydweithwyr eraill. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |